Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC (3) 27-09)

Dyddiad: 18 Tachwedd 2009
Amser: 9.30am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 18 Tachwedd 2009. Roedd yr Aelodau a ganlyn yn bresennol: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, William Graham AC, Mike German AC a Joyce Watson AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

1. Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Hydref 2009. Fe'u gosodwyd ar 29 Hydref 2009. Yn dod i rym ar 20 Tachwedd 2009.

SLC351 - Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 11 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 15 Rhagfyr 2009.

2. Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 5 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 27 Tachwedd 2009.

Nododd yr Aelodau bod y Rheoliadau'n cywiro gwall yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009 ond yn hytrach na chywiro'r cyfeiriad anghywir (XXX/2008) at Reoliad Comisiwn 124/2009. Mae Rheoliad 2(2) yn cyfeirio'n wallus at Rheoliad Comisiwn 124/2008 – Rheol Sefydlog 15.2 (vi).

Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor bod hwn yn wall teipograffyddol amlwg y byddai'n briodol ei gywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

Ceir copi o Adroddiad y Pwyllgor o dan Rheol Sefydlog 15.2 ar y Rheoliadau hyn yn Atodiad 1.

3. Gohebiaeth y Pwyllgor

Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ynglŷn â'r broses o graffu ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, a dynnodd sylw'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth at faterion y gofynnwyd iddo eu hystyried fel materion o ddiddordeb cyfreithiol cyffredinol, a hynny fel rhan o'r ymchwiliad i ddatblygiad Atodlen 5. Penderfynodd y Pwyllgor wahodd Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth 5 i roi tystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad i ddatblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Eithriadau i Faterion.

Ymateb Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Cydraddoldeb

Trafododd y Pwyllgor ymateb Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Cydraddoldeb a gyhoeddwyd ym mis Medi. Cytunodd y Pwyllgor fod ymateb y Gweinidog yn siomedig mewn rhai ffyrdd a chytunodd i ysgrifennu ato yn mynegi ei bryderon.

Ymateb Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir (Mesur Seneddol)

Trafododd y Pwyllgor ymateb Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, i Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir (Mesur Seneddol), a gyhoeddwyd ym mis Medi. Cytunodd y Pwyllgor fod rhannau o ymateb y Gweinidog yn parhau i achosi pryder. Cytunodd i ysgrifennu ati gan amlinellu'r pryderon hynny, yn enwedig mewn perthynas ag Argymhelliad 3 yn adroddiad y Pwyllgor lle mae'n ymddangos bod y Gweinidog, wrth roi tystiolaeth, wedi derbyn bod drafftio adran 63 o'r Mesur Seneddol yn ddiffygiol.

Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol i dynnu ei sylw at hyn a materion eraill sy'n deillio o waith y Pwyllgor o graffu ar y Mesurau Seneddol.

Ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lythyr y Cadeirydd ynglŷn â SLC312 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) 2009

Trafododd y Pwyllgor ymateb Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i lythyr gan y Cadeirydd ynghylch y rhesymau a roddwyd gan y Llywodraeth dros gyhoeddi'r Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig. Roedd y Pwyllgor yn derbyn y gallai amserlen dynn a'r angen i ddeddfu ar frys fod yn rhesymau dilys dros beidio â chyfieithu is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, ni chafodd ei argyhoeddi'n llwyr fod hwn yn rheswm dilys yn yr achos hwn pan nad oedd llawer o waith cyfieithu.

Ymateb Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar Fesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Tlodi Plant

Trafododd y Pwyllgor ymateb Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i Adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Seneddol ynghylch Tlodi Plant a gyhoeddwyd ym mis Hydref. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen cymryd camau pellach ar hyn o bryd.

4. Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Is-ddeddfwriaeth – cymhariaeth â gweinyddiaethau eraill

Cymharodd yr Aelodau Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Cymru â'r rhai mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill. Penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol i roi gwybod iddo fod yr Aelodau wedi cymharu cod Llywodraeth Cynulliad Cymru â chod y gweinyddiaethau eraill, ac wedi dod i'r casgliad bod cod Cymru yn gynhwysfawr a thrylwyr, ac yn llwyddo i osgoi'r canllawiau gorfanwl a ddefnyddir gan eraill. Bydd y Pwyllgor yn cadw datblygiad y Cod dan adolygiad ac yn gofyn i'r Llywodraeth am syniad bras o'i hamserlen ar gyfer adolygu'r Cod.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

18 Tachwedd 2009

Atodiad 1

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-27-09)

SLC350

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009

Y Weithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau'n honni eu bod yn cywiro gwall yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009 a nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar 22 Mehefin 2009 (SLC 299).

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a ganlyn:

Rheoliad (2) : - Mae'r rheoliad hwn yn diwygio gwall yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009 ond yn hytrach na chywiro'r cyfeirnod anghywir (XXX/2008) at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 124/2009 y Comisiwn, cyfeiria 2(2) yn anghywir at Reoliad 124/2008 y Comisiwn - Rheol Sefydlog 15.2 (vi)

Er hynny, ystyrir bod y gwall teipio amlwg hwn yn briodol i gael ei gywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

18 Tachwedd 2009